Taith Llwybr 1: Addysg Uwch Symudedd Addysg (AU) ac Addysg Uwch Symudedd (Ymchwil)

Cwestiynau Ansoddol y Ffurflen Gais

Blwyddyn: 2023

Dyddiad Cau: 16 Mawrth 2023

Fersiwn 1: 18 Ionawr 2023

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Crynodeb, Amcanion a Gweithrediad y prosiect 3
Meini prawf asesu 5
Gweithgareddau prosiect 6
Meini prawf asesu 10
Hyrwyddo ymrwymiadau trawsbynciol Taith 11
Meini prawf asesu 13

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y cwestiynau ansoddol y byddwch yn dod o hyd iddynt yn y ffurflen gais, ynghyd â'r meini prawf asesu yr asesir y ceisiadau yn eu herbyn. Nod y ddogfen hon yw rhoi golwg i chi ar y cwestiynau cyn llenwi'r ffurflen gais, a'ch galluogi i ysgrifennu eich ymatebion all-lein, yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen gais ar-lein i'w chyflwyno. Sylwch, dim ond trwy'r ffurflen gais ar-lein y gellir derbyn ceisiadau, a dim ond arf yw'r ddogfen hon i'ch cefnogi i gwblhau'r atebion.

Er mwyn cael eich ystyried yn gymwys i dderbyn cyllid, rhaid i geisiadau basio'r trothwyon ansawdd canlynol:

- leiaf 60 allan o'r cyfanswm o 100 pwynt, ac
- leiaf hanner yr uchafswm pwyntiau ym mhob un o'r tri chategori meini prawf dyfarnu.

Mae'r meini prawf asesu perthnasol ar gyfer pob adran o dan y cwestiynau ansoddol er mwyn i chi allu deall sut bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu a sicrhau eich bod wedi cynnwys digon o wybodaeth.

Sylwer: Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cwestiynau ansoddol ar gyfer yr holl weithgareddau sydd ar gael i'r sector Addysg Uwch Symudedd Addysg (AU) ac Addysg Uwch Symudedd (Ymchwil). **Oni nodir yn wahanol, ni all y blychau testun ar gyfer y cwestiynau ansoddol gynnwys mwy na 5,000 o nodau.** Byddwch yn gryno wrth ateb y cwestiynau, gan nad yw canlyniad yr asesiad yn seiliedig ar nifer y geiriau.

Crynodeb, Amcanion a Gweithrediad y prosiect

Mae'r cwestiynau ar y dudalen hon yn ymwneud â'r prosiect cyfan. Dylai'r atebion gynnwys digon o fanylion i ddangos bod y prosiect wedi'i feddwl yn drylwyr, bod gennych gynllun clir o ran gwledydd cyrchfan a phartneriaethau, ac y bydd eich sefydliad yn gallu rheoli gweinyddiaeth, cynllunio a monitro'r prosiect i safon uchel.

Mae yna 8 cwestiwn o fewn adran yma'r ffurflen gais. Noder bod rhaid ateb pob cwestiwn gorfodol**. Oni nodir yn wahanol, ni all y blychau testun ar gyfer y cwestiynau ansoddol gynnwys mwy na 5,000 o nodau.** Byddwch yn gryno wrth ateb y cwestiynau, gan nad yw canlyniad yr asesiad yn seiliedig ar nifer y geiriau.

Rhowch grynodeb o'ch prosiect. Dylai fod yn addas i'w gyhoeddi a chynnig trosolwg cryno a chlir o'r amcanion, y gweithgareddau, a phwy yr ydych am ei weld yn cymryd rhan yn eich prosiect.

Sicrhewch fod eich ateb yn gynhwysfawr ac yn glir gan gynnwys elfennau allweddol sy'n cael e crybwyll yn y cwestiwn. Mae'n bwysig bod y crynodeb yma yn amlygu budd y prosiect i'r cyfranogion.

Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon

Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y prosiect a sut mae'r prosiect yn cysylltu â'ch strategaeth a'ch blaenoriaethau fel sefydliad(symudedd addysg), neu nodau ac amcanion allweddol eich sefydliad (symudedd ymchwil)?

Sut mae'r prosiect yn mynd i'r afael ag anghenion eich sefydliad(au), staff a dysgwyr mewn ffordd glir ac ymarferol? Sut bydd y prosiect yn cynyddu cwmpas rhyngwladol eich sefydliad(au)?

Pa wledydd a sefydliadau fydd eich sefydliad(au) yn eu targedu yn bennaf wrth fynd ati i greu partneriaethau rhyngwladol?

Beth sy'n arbennig am y wlad hon/gwledydd hyn fydd yn cynnig y cyfleoedd dysgu yr ydych am eu rhoi i'r rhai sy'n cymryd rhan ar draws y gweithgareddau arfaethedig? Oes gennych chi bartneriaethau yn y wlad hon/gwledydd hyn ar hyn o bryd? Os oes, beth sy'n eu gwneud yn bartneriaid addas ar gyfer y prosiect a'r gwahanol weithgareddau? Os nad oes, pa fath o bartner(iaid) yr ydych chi'n awyddus i weithio gyda nhw a pham? Sut byddwch yn eu nodi ac yn ymgysylltu â nhw? Ydych chi'n bwriadu ehangu nifer a/neu'r mathau o bartneriaid rhyngwladol drwy gydol cyfnod y prosiect?

Sut mae eich sefydliad yn bwriadu cydlynu a chefnogi'r gwaith o hwyluso symudedd mewnol gan bartneriaid rhyngwladol fydd yn cael eu cynnal yn eich sefydliad, os yw'n berthnasol?

Sut bydd eich sefydliad(au) yn targedu ac yn blaenoriaethu partneriaid rhyngwladol er mwyn cefnogi symudedd mewnol? Sut bydd y rhai fydd yn dod i'r wlad i gymryd rhan yn cael eu dewis? Sut byddwch yn eu cefnogi drwy gydol eu cyfnod yma?

Amlinellwch allu gweinyddol eich sefydliad a'r prosesau i reoli'r prosiect a'r cyllid grant.

Sut bydd eich sefydliad yn rheoli gwahanol agweddau a chyfnodau'r prosiect, o gynllunio a pharatoi i reoli dull cyflwyno gweithredol, cyfathrebu a chydweithio â phartneriaid, rheoli arian a chydymffurfio, rheoli risg, monitro, cadw cofnodion ac adrodd.

Pa adnoddau staff sydd/fydd ar waith i wneud hwyn? Nodwch sut byddwch yn rheoli taliadau i unigolion fydd yn cymryd rhan (gan gynnwys y rhai fydd yn dod o bartneriaid allanol), lle bo hynny'n berthnasol.

Sut byddwch yn monitro cynnydd gweithgareddau eich prosiect, mesur llwyddiant eich prosiect yn gyffredinol a sicrhau bod unrhyw ddysgu yn cael ei rannu?

Sut byddwch yn monitro symudedd ac yn cofnodi unigolion sy'n cymryd rhan? Sut byddwch chi'n casglu adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan? Sut byddwch chi'n asesu safon deilliannau a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod yn ffurfiol, lle bo hynny'n berthnasol? Sut byddwch yn gwerthuso effaith a manteision y prosiect i ddysgwyr, staff a'r sefydliad(au) ac yn rhannu canfyddiadau (gan gynnwys gwersi a ddysgwyd) ar draws y sefydliad(au)?

Beth, yn eich barn chi, yw'r prif risgiau o ran cyflwyno'r prosiect a sut byddwch chi'n mynd ati i reoli'r rhain?

Er enghraifft, pandemig parhaus COVID-19 ac unrhyw gyfyngiadau teithio, anawsterau gyda phartneriaid, recriwtio pobl i gymryd rhan, ac ati. Rhowch fanylion ar gyfer symudedd mewnol ac allanol lle bo hynny'n briodol.

Sut byddwch yn sicrhau bod dyletswydd gofal priodol ar waith yn ystod symudedd allanol a mewnol ac yn ystod cyfnewidfeydd rhithwir (os yn berthnasol)? Sut byddwch yn sicrhau bod sefydliadau partner yn barod i gynorthwyo pawb sy'n cymryd rhan?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn nodi sut a pha fesurau y bydd eich sefydliad yn eu cymryd i sicrhau diogelwch/dyletswydd gofal y rhai sy'n cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys yr hyn y bydd eich sefydliad a'ch sefydliad(au) partner yn ei wneud. Lle nad oes gennych sefydliad(au) partner eisoes, nodwch sut y byddwch yn dewis ac yn gweithio gyda'r partner i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni a beth fydd eich disgwyliadau ohonynt.

Meini prawf asesu

Meini prawf ar gyfer Llwybr 1 – Symudedd cyfranogwyr	
Perthnasedd ac ansawdd amcanion a chynlluniau cyflawni'r prosiect (hyd at 40 o bwyntiau)	• Mae'r prosiect yn berthnasol i nodau ac amcanion Taith, ac mae'r gweithgareddau arfaethedig o werth i'r sefydliad sy'n gwneud cais. • Mae'r graddau y mae'r prosiect yn diwallu anghenion a nodwyd ymhlith unigolion sy'n cael eu targedu wedi'u dangos mewn ffordd glir a phendant. • Mae perthnasedd a manteision cyflawni'r prosiect drwy gonsortiwm wedi'u dangos yn glir (ar gyfer ceisiadau gan gonsortia). • Mae'r partneriaid rhyngwladol a nodir yn y cais yn briodol ac yn berthnasol ar gyfer gweithgareddau a chanlyniadau dymunol y prosiect, a rhoddir rhesymau clir ar gyfer y gwledydd dan sylw. Os nad oes partneriaid rhyngwladol wedi'u nodi yn y cais, mae'r cynlluniau a amlinellir ar gyfer eu nodi a'u cynnwys yn briodol ac wedi'u hystyried yn ofalus. • O ran lleoliadau symudedd i mewn i Gymru, mae dulliau arfaethedig o reoli'r rhain yn ystyriol, yn briodol ac yn amlwg yn ychwanegu gwerth at y prosiect. • Mae'r sefydliad/consortiwm sy'n gwneud cais wedi dangos tystiolaeth bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol o ystyried maint y prosiect arfaethedig. Mae wedi dangos dulliau ystyriol a phriodol o reoli'r prosiect o ddydd i ddydd, rheoli cyllid, rheoli lleoliadau symudedd a rhoi cymorth i'r unigolion. • Mae dulliau arfaethedig o fonitro gweithgareddau a chynnydd y prosiect, gan gynnwys casglu a defnyddio adborth yr unigolion, a chynlluniau i werthuso deilliannau ar bob lefel yn gynhwysol ac yn realistig. • Caiff prosesau priodol eu cynnwys yn y cais ar gyfer nodi a rheoli risgiau (ac amgylchiadau eithriadol) wrth gyflawni'r prosiect. • Mae'r sefydliad wedi dangos y bydd yn cymryd camau diogelu / gofalu priodol yn rhan o'r holl weithgareddau arfaethedig, ac mae ganddo gynllun ystyriol a phriodol i sicrhau y bydd pob unigolyn yn cael ei gefnogi.

Gweithgareddau prosiect

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi gynnig disgrifiad manwl o weithgareddau eich prosiect. I gwblhau'r dudalen hon, dewiswch y gweithgareddau symudedd rydych yn bwriadu eu cynnig fel rhan o'ch prosiect. Rhaid dewis o leiaf un gweithgaredd ac un is-weithgaredd. Bydd pob gweithgaredd a ddewisir yn agor cwestiynau meintiol ac ansoddol pellach. Dim ond y cwestiynau hynny sy'n berthnasol i'r gweithgareddau yr ydych yn dewis gwneud cais amdanynt fydd angen eu hateb.

Mae tri opsiwn ar gyfer gweithgareddau prosiect sef gweithgareddau myfyrwyr, gweithgareddau staff a lleoliadau ymchwil a secondiadau. Rhestrir y gwahanol opsiynau gweithgaredd a chwestiynau perthnasol isod.

Gweithgareddau myfyrwyr (AU)	**Gweithgareddau staff (AU)**	**Lleoliadau a secondiadau ymchwil (Ymchwil)**
Symudedd academaidd, gwirfoddoli neu brofiadau gwaith, ar gyfer unigolion	Lleoliadau dysgu academaidd a chysgodi swyddi ar gyfer staff	Lleoliadau a secondiadau ymchwil
Symudedd ar gyfer grwpiau	Cyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus	Ymweliadau cychwynnol, rhwydweithio a chydweithio
Ysgolion Haf, gwirfoddoli neu brofiadau gwaith	Ymweliadau cyn-symudedd neu fugeiliol	
Cyfnewidiadau rhithiol		

Oni nodir yn wahanol, ni all y blychau testun ar gyfer y cwestiynau ansoddol gynnwys mwy na 5,000 o nodau. Byddwch yn gryno wrth ateb y cwestiynau, gan nad yw canlyniad yr asesiad yn seiliedig ar nifer y geiriau.

<u>Symudedd academaidd, gwirfoddoli neu brofiadau gwaith, ar gyfer unigolion (AU)</u>

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd academaidd, gwirfoddoli neu brofiadau gwaith, ar gyfer unigolion

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad o'r gweithgaredd yma? Pa fath o symudedd ar gyfer unigolion ydych chi'n bwriadu eu cyflawni? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sy'n bodoli i'r dysgwyr?

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion am yr agweddau ymarferol ar baratoi a rheoli'r gweithgareddau, yn ogystal â sut y byddwch chi'n cefnogi dysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd i gymryd rhan, sicrhau bod y dysgwyr unigol yn barod iawn ar gyfer y symudedd ac yn cael eu cefnogi'n llawn tra'n dramor, rôl y sefydliad(au) derbyn yn hwn ac ati.

Symudedd ar gyfer grwpiau (AU)

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd ar gyfer grwpiau.

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan ddysgwyr ar hyn o bryd? Sut byddwch chi'n sicrhau safon y profiadau symudedd ar gyfer grwpiau?

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion o agweddau ymarferol o baratoi a rheoli symudedd grŵp tramor yn ogystal â sut byddech chi'n sicrhau cyfranogiad cynhwysol ar gyfer amryw o ddysgwyr, sut byddech yn sicrhau bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, beth yw eich cymhareb staff arfaethedig i ddysgwyr, rôl y sefydliad(au) derbyn a.y.b.

Ysgolion Haf, gwirfoddoli neu brofiadau Gwaith (AU)

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd ysgolion haf, gwirfoddoli neu brofiadau gwaith.

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad o'r gweithgaredd hwn? Pa fath o symudedd unigol ydych chi'n bwriadu eu cyflawni? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio y bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sy'n bodoli eisoes i ddysgwyr? Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd symudedd dysgwyr unigol?

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion am yr agweddau ymarferol ar baratoi a rheoli'r gweithgareddau, yn ogystal â sut y byddwch chi'n cefnogi dysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd i gymryd rhan, sicrhau bod y dysgwyr unigol yn barod iawn ar gyfer y symudedd ac yn cael eu cefnogi'n llawn tra'n dramor, rôl y sefydliad(au) derbyn yn hwyn ac ati.

Cyfnewidiadau rhithiol (AU)

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am gyfnewidiadau rhithiol.

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad ac am y gweithgaredd hwn? Pa fath o gyfnewidiadau rhithwir ydych chi'n bwriadu eu cyflawni? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Pam mae cyfnewid rhyngwladol rhithwir y mwyaf addas ar gyfer eich grwpiau o ddysgwyr wedi'u targedu? Sut mae'r gweithgaredd hwn yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sy'n bodoli eisoes i ddysgwyr? Sut fyddwch chi'n sicrhau perthnasedd ac ansawdd y cyfnewidiadau rhithwir?

Sut y byddwch yn rheoli'r gwaith o ddatblygu a darparu cyfnewidfeydd rhithiol priodol, cymorth yfyrwyr, a monitro gweithgareddau?

Rhowch fanylion o ut byddwch chi'n rheoli'r gwaith o ddatblygu a darparu cyfnewidfeydd rhithwir a sut y byddwch yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu ymgysylltu â'r gweithgareddau ac yn cael cefnogaeth i gymryd rhan? Sut fyddwch chi'n monitro cwblhau cyfnewidfeydd rhithwir? Amlinellwch unrhyw gynlluniau i ddefnyddio darparwyr allanol, trydydd parti ar gyfer y gweithgaredd hwn, os yn berthnasol.

Lleoliadau dysgu academaidd a chysgodi swyddi ar gyfer staff (AU)

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am leoliadau dysgu academaidd a chysgodi swyddi ar gyfer staff.

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad am y gweithgaredd hwn? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio y bydd staff yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i aelodau staff? Sut bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad?

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion megis sut byddwch yn dewis yr aelodau staff sy'n cymryd rhan, yr hyn yr ydych yn disgwyl iddynt ei gyflawni tra ar yr ymweliad(au), sut bydd staff yn cael eu derbyn cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd, rôl y sefydliad derbyn a.y.b.

Cyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (AU)

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am gyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad am y gweithgaredd hwn? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio y bydd staff yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i aelodau staff? Sut bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad(au)?

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion am sut byddech yn dewis aelodau staff sy'n cymryd rhan, sut bydd myfyrwyr yn cael eu derbyn cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd, rôl y sefydliad derbyn a.y.b.

Ymweliadau cyn-symudedd neu fugeiliol (AU)

Esboniwch pam eich bod wedi dewis gwneud cais am ymweliadau cyn-symudedd neu fugeiliol.

eth yw nodau ac amcanion eich sefydliad am y gweithgaredd hwn? Pa sefydliad(au)/gwlad/ gwledydd(ydd) ydych chi'n bwriadu ymweld â, a beth yw'r gweithgaredd wedi'i gynllunio i'w

gyflawni? E.e. paratoi prosiectau cyfnewid, cefnogaeth i gyfranogwyr unigol, asesiadau cynllunio/risg i gyfranogwyr ag anableddau/Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ati.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

Rhowch fanylion megis sut byddwch yn dewis yr aelodau staff sy'n cymryd rhan, beth ydych chi'n disgwyl iddynt ei gyflawni tra ar yr ymweliad(au), sut y byddant yn cael eu sefydlu i gyflawni'r tasgau penodol a ddisgwylir o ymweliadau paratoi a.y.b.

Lleoliadau a secondiadau ymchwil (Ymchwil)

Eglurwch pam rydych wedi dewis gwneud cais am leoliadau a secondiadau ymchwil

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad am y gweithgaredd hwn? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio y bydd ymchwilwir yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i ymchwilwir? Sut bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad?

Sut y byddwch yn datblygu ac yn rheoli'r gweithgareddau arfaethedig?

Rhowch fanylion am sut byddech yn dewis yr ymchwilwir sy'n cymryd rhan, sut byddynt yn derbyn cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd, rôl y sefydliad derbyn a.y.b

Ymweliadau cychwynnol, rhwydweithio a chydweithio (Ymchwil)

Eglurwch pam eich bod wedi dewis gwneud cais am ymweliadau cychwynnol, rhwydweithio a chydweithio.

Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad am y gweithgaredd hwn? Pa ganlyniadau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio y bydd ymchwilwir yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i ymchwilwir? Sut bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad?

Sut y byddwch yn datblygu ac yn rheoli'r gweithgareddau arfaethedig?

Rhowch fanylion am sut byddech yn dewis yr ymchwilwir sy'n cymryd rhan, sut byddynt yn derbyn cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd, rôl y sefydliad derbyn a.y.b.

Meini prawf asesu

Assessment criteria for Taith Pathway 1 – Mobility of participants	
Ansawdd ac amcanion gweithgareddau arfaethedig (hyd at 35 o bwyntiau)	• Mae'r gweithgareddau arfaethedig wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac maent yn diwallu anghenion a nodwyd. • O ran cyflawni amcanion y prosiect, mae'r gweithgareddau arfaethedig yn realistig. Nodwyd cynllun clir ac amserlen ar gyfer yr holl weithgareddau. • Rhoddwyd esboniad clir o'r hyn sydd ynghlwm wrth bob gweithgaredd arfaethedig a rhesymau dros y cydbwysedd rhwng y mathau gwahanol o weithgareddau. • Mae'r sefydliad wedi dangos i ba raddau y mae'r gweithgareddau arfaethedig yn rhai newydd neu'n ategu ei arferion presennol, neu os yw'n adeiladu ar arferion presennol, wedi dangos ymagwedd arloesol ac ymrwymiad i welliant parhaus. • Dangoswyd i ba raddau y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn sicrhau deilliannau dysgu o ansawdd uchel i unigolion. • Nodwyd yn glir pa unigolion y mae pob un o'r gweithgareddau arfaethedig yn eu targedu. Nodwyd prosesau priodol a chynhwysol ar gyfer helpu'r unigolion i gyfranogi, a hynny mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i wireddu potensial llawn y profiad. • Esboniwyd yn glir beth yw priod rolau pob sefydliad (y sefydliad sy'n gwneud cais a'r sefydliad(au) a fydd yn derbyn yr unigolion) yn rhan o bob gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gweithgareddau symudedd i mewn i Gymru, yn ôl yr angen. • Esboniwyd pa gamau a gaiff eu cymryd i helpu i baratoi'r unigolion cyn y gweithgareddau arfaethedig a pha gymorth a gaiff ei roi yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau hynny.

Hyrwyddo ymrwymiadau trawsbynciol Taith

Mae gan Taith nifer o ymrwymiadau trawsbynciol y mae'n rhaid eu hymgorffori ym mhob prosiect. I gefnogi ansawdd eich atebion, darllenwch ein dogfen ganllaw cais, cam wrth gam, sy'n esbonio ystyr pob cwestiwn yn fanylach.

Mae'n rhaid ateb bob cwestiwn gorfodol ar gyfer eich sector. Oni nodir yn wahanol, ni all y blychau testun ar gyfer y cwestiynau ansoddol gynnwys mwy na 5,000 o nodau. Byddwch yn gryno wrth ateb y cwestiynau, gan nad yw canlyniad yr asesiad yn seiliedig ar nifer y geiriau.

Addysg Uwch Symudedd Addysg (AU)

Sut byddwch chi'n hyrwyddo Taith yn eich sefydliad a gyda sefydliadau partner mewn modd cynhwysol i sicrhau bod staff a/neu fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gymryd rhan?

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cyfle(oedd) o fewn eich sefydliad/consortiwm. Dylai'r atebion nodi sut y byddwch yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr posibl (gan gynnwys y rhai sy'n anos eu cyrraedd) yn cael gwybod am y cyfle(oedd) a'r hyn y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod darpar gyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwahodd a'u bod yn gallu cymryd rhan.

Pa fesurau penodol fyddwch chi'n eu cymryd i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a'r rhai o grwpiau eraill a dangynrychiolir, i gymryd rhan drwy gydol cyfnod eich prosiect a'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar ei gyfer?

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â sut y bydd eich sefydliad wedyn yn cefnogi'r cyfranogwyr sydd wedi cynnig eu hunain/wedi cael eu dewis ar gyfer symudedd. Dylai'r atebion nodi sut a beth y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod y cyfranogwyr hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn drwy gydol y prosiect, gan gynnwys unrhyw gymorth penodol i gyfranogwyr ag anghenion ychwanegol.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys codi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar sut y byddwch yn cyflawni'r uchod – yng Nghymru a thramor.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i annog arferion amgylcheddol cynaliadwy, gan gynnwys teithio cynaliadwy?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar sut y byddwch yn cyflawni'r uchod – yng Nghymru a thramor.

Addysg Uwch Symudedd Ymchwil

Pa fesurau penodol fyddwch chi'n cymryd i hyrwyddo a gwella cyfranogiad mewn symudedd ymchwil ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol, drwy gydol eich prosiect a'i weithgareddau arfaethedig?

Dylai'r atebion nodi sut y byddwch yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr posibl (gan gynnwys y rhai sy'n anos eu cyrraedd) yn cael gwybod am y cyfle(au) a'r hyn y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod darpar gyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwahodd a'u bod yn gallu cymryd rhan.

Sut bydd eich prosiect yn targedu'n benodol symudedd a datblygiad proffesiynol ymchwilwyr gyrfa gynnar a myfyrwyr ymchwil ôl raddedig, a sut y bydd yn hyrwyddo'r rhain? Sut byddwch chi'n hyrwyddo Taith yn eich sefydliad a'ch sefydliadau partner i annog ymchwilwyr gyrfa gynnar a myfyrwyr ymchwil ôl raddedig i gymryd rhan yn y prosiect?

Dylai'r atebion nodi sut y byddwch yn ceisio sicrhau bod ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael, yn ogystal â'r mesurau ymarferol y byddwch chi a sefydliadau partner yn eu cymryd i gefnogi eu cyfranogiad.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys codi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar sut y byddwch yn cyflawni'r uchod – yng Nghymru a thramor.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i annog arferion amgylcheddol cynaliadwy, gan gynnwys teithio cynaliadwy?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar sut y byddwch yn cyflawni'r uchod – yng Nghymru a thramor.

Meini prawf asesu

Assessment criteria for Taith Pathway 1 – Mobility of participants	
Cyflawni ymrwymiadau trawsbynciol Taith (hyd at 25 o bwyntiau)	I ba raddau: • Nodwyd dulliau clir o gyfathrebu a dulliau priodol o hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y prosiect i unigolion, gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. • Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais wedi diffinio'n glir pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n eu targedu. Mae wedi rhoi gwybodaeth am y rhwystrau a nodwyd o ran ehangu cyfranogiad ymhlith y grwpiau hynny ac wedi amlinellu camau priodol i oresgyn y rhwystrau hyn. • Nodwyd ymrwymiad a chynlluniau clir i helpu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn benodol i gyfranogi. • Nodwyd dulliau amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys cynlluniau clir a diriaethol i sicrhau teithio cynaliadwy, lle bo'n briodol. • Nodwyd dulliau clir ac effeithiol o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan o'r gweithgareddau arfaethedig, gan gynnwys dulliau o godi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang.

Taith.cymru

Taith.wales